

Adroddiad Blynyddol

Menter Iaith Conwy

Ebrill 2010 – Mawrth 2011

**Menter iaith**



Yn hyrwyddo'r Gymraeg yn lleol  
Promoting the Welsh language locally



Lleolwyd Adeilad Menter iaith Conwy ar sgwar Llanrwst.

# Cynnwys

## Rhagair

- Aelodau Pwyllgor
- Aelodau Staff
- Pwyllgorau Ardal
- Strwythur Rheoli a Staffio Menter iaith Conwy
- Cyllid
- Cynlluniau Gwireddu Strategaeth

## ***Blaenoriaeth – Meysydd y bydd y Fenter yn arwain ynddynt***

- ***Cymhathu / Dysgwyr / Mewnfudwyr***
- ***Ieuenctid / Allfudo / Cyflogaeth***
- ***Defnydd Cymunedol, Plant a Theuluoedd, Trosglwyddo iaith***

## ***Eilradd - Meysydd y bydd y Fenter yn cydweithio ynddynt â phartneriaid amlwg.***

- ***Addysg***
- ***Busnes***
- ***Gwirfoddol***

## ***Cynlluniau Penodol***

- ***Cyfieithu Cymunedol***
- ***Asiantaeth Awyr Agored***
- ***Yr Hen Ysgol***

# Rhagair

Cofnod yw hwn o waith a chyfeiriad cyffredinol Menter Iaith Conwy (MiConwy). Mae'n cynnwys y llwyddiannau, y rhwystrau a'r methiannau (ceir cofnod manylach o waith y Fenter yn yr adroddiadau chwarterol).

Bydd MiConwy yn parhau i weinyddu 5 cynllun fydd yn derbyn nawdd drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig. Teimlwn fod gweinyddiaeth y cynlluniau yma yn fwy trefnus erbyn hyn oherwydd nifer y staff gweinyddol yn MiConwy a Chyngor Sir Conwy. Er hynny, teimlwn fod gormod o amser yn cael ei dreulio ar yr agwedd yma o'r gwaith a nad oes digon o werthfawrogiad i'r hyn y mae'r cynlluniau yn eu cyflawni ar lawr gwlad. Bu Gwersi Cymraeg i Niferoedd Bychain, Hyfforddiant Awyr Agored a Chyfieithu Cymunedol yn hynod llwyddiannus. O'r herwydd, penderfynodd y Fenter ddatblygu cais i Gronfa Drawsffiniol CDG i ehangu'r cynlluniau hyn ar draws y Gogledd.

Bu rhaglen gyson o weithgareddau ar draws rhannau helaeth o'r Sir, nifer ohonyn nhw wedi eu cynllunio gan y Pwyllgorau Ardal. Teimlwn fod nifer o'n pwyllgorau wedi aeddfedu ac yn cynorthwyo ein swyddogion ardal i weithredu cynlluniau gwaith lleol ac ystyrion. Er hynny, rydym ni'n ymwybodol fod angen aildanio ambell i bwyllgor fel Pwyllgor y Berfeddwlad a Dolwyddelan. Mae cofnod manwl o'r rhaglen waith yma ar gael trwy ein pwyllgorau ardal.

Mae rhai o'n cynlluniau penodol - Cyfieithu Cymunedol a'r Asiantaeth Awyr Agored - hefyd wedi gweld cynnydd sylweddol.

Oherwydd ein llwyddiant i ddenu cyllid gan CAE (Cronfa Amgen Eryri) penderfynwyd edrych yn fanylach ar y maes Awyr Agored a cheisio datblygu arbenigedd yn y maes. Gyda hyn, newidiwyd swydd Bedwyr ap Gwyn o fod yn Swyddog Ardal Wledig gyda dyletswyddau "Awyr Agored" i fod yn Swyddog Asiantaeth Awyr Agored. Bwriad y cynllun ydi hyfforddi a chreu gwaith i ddarparwyr Cyfrwng Cymraeg. Bydd Bedwyr hefyd yn parhau i weinyddu cronfa "Gwersi Cymraeg i niferoedd Isel". Golyga hyn fod Eyllt Tudur, a oedd gynt yn Swyddog Treftadaeth, yn dod yn Swyddog Ardal Wledig a Threftadaeth. Hi fydd yn cynorthwyo'r pwyllgorau ardal a phwyllgorau penodol fel Llanast Llanrwst.

Bwriad Cynllun yr Hen Ysgol oedd atgyweirio rhannau o adeilad yr Hen Ysgol Ramadeg yn Llanrwst i fod yn ganolfan aml-ddefnydd gyda gweithgareddau'n ymwneud â pherfformio'n bennaf, ac oll drwy'r Gymraeg. Penodwyd Swyddog Datblygu'r Hen Ysgol i ymgymryd â'r gwaith datblygu sef yn fras : ymgynghori cymunedol, gosod ffocws i'r defnydd arfaethedig, asesu hyfywdra'r cynllun, ymchwilio i grantiau cyfalaf a refeniw, paratoi ceisiadau. Perchnogion yr ysgol yw Cymdeithas Tai Pennaf a'u rôl nhw yn natblygiad y cynllun oedd darparu'r wybodaeth dechnegol arbenigol sef cynlluniau, prisiau cyfalaf a chostau rhedeg a hawl cynllunio. Er mwyn llwyddo gydag unrhyw gynllun cymunedol, a cheisiadau ariannol, rhaid profi bod y cynllun yn hyfyw'n ariannol ac yn adlewyrchu anghenion lleol. Wrth i'r cynllun fwrw ymlaen gwelwyd nad oedd Pennaf yn darparu gwybodaeth digon manwl nac yn brydlon - er cyd-fynd ag anghenion ac amserlenni grantiau, heb sôn am asesu os yw'r cynllun yn ariannol hyfyw. Roedd cyllid y swydd hefyd yn dod i ben ar ddiwedd y flwyddyn (er y cafwyd estyniad hyd Awst 11) gan wneud y sefyllfa'n fwy argyfyngus. Cymaint oedd ein rhwystredigaeth nes i ni ysgrifennu at brif weithredwr Gymdeithas Tai Pennaf i fynegi ein hofnau ac i ofyn am gyfarfod. Cafwyd cyfarfod ym mis Medi ond ni chafwyd unrhyw addewid pendant. Oherwydd diffyg ymateb gan y cwmni gofynnwyd am gyfarfod arall. Cynhaliwyd y cyfarfod ym mis Ionawr, ond unwaith eto ni chafwyd unrhyw addewidion pendant nac ychwaith unrhyw gydnabyddiaeth gan Pennaf bod eu diffygion nhw wedi amharu ar ddatblygiad y cynllun. Yn sgil hyn penderfynwyd edrych am adeiladau eraill yn Llanrwst i ddatblygu ein cynllun. Ystyriwyd adeilad yr Hen Orsaf yn Llanrwst yn ganolfan bosib. Dechreuwyd ar y gwaith datblygu yn fuan wedyn. Mae cyllid wedi ei sicrhau hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol 11/12 dan gynllun "Codi Cymhwysedd Cymunedol" a byddwn yn gweithio ar gynlluniau i gynorthwyo gyda chreu mentrau cymdeithasol cyfrwng Cymraeg yn y Sir.

Rydym yn falch o fod wedi gallu cynyddu nifer y staff a'r gweithgareddau eto eleni er y sefyllfa economaidd sydd ohoni.

# **Aelodau Pwyllgor** Ebrill 2010 – Mawrth 2011.

Bu Cyfarfod Blynyddol Menter Iaith Conwy y Swyddfa'r Fenter, Llanrwst ar y 18fed o Ebrill. Ail-etholwyd Gwyn Roberts yn Gadeirydd.

Cadeirydd – Gwyn Roberts

Trysorydd – Arfon Williams

Ysgrifennydd – Teleri Hughes - Staff

Baudewijn Morgan - Dysgwyr

Eirian Jones - Gwirfoddol

Eleri Evans – Materion Staffio

Wyn Jones – Materion Staffio

Tecwyn Ifan – Heb Bortffolio

Huw Prys – Heb Bortffolio

Eryl P Roberts – yr Ardal Wledig

Meirion Davies – Staff

# **Aelodau Staff** Ebrill 2010 – Mawrth 2011

Cyfarwyddwr Datblygu – Meirion Davies

Swyddog Cyllid - Teleri Hughes – derbyniwyd cais gan Teleri i leihau ei horiau. Felly, bu'n rhaid creu swydd newydd oedd hefyd yn delio ag agweddau personél y Fenter.

Swyddog Cyllid a Phersonél cynorthwyol – Bethan Jones

Swyddog Arfordirol – Manon Celyn.

Swyddog Asiantaeth Awyr Agored - Bedwyr ap Gwyn

Swyddog Ardal Wledig a Threftadaeth - Emyll Tudur.

Swyddog Datblygu'r Hen Ysgol - Eirian Jones

Iwan Glyn – Swyddog Datblygu Mentrau Iaith Cymru

Manteisiwyd ar gronfa Swyddi'r Dyfodol i gyflogi staff cynorthwyol am 6 mis.

George Amor - Swyddog Maes Cynorthwyol

## Cyfieithu Cymunedol

Prif Gyfieithydd - Glyn Jones

Mentor – Dafydd Chilton

Dan Hyfforddiant - Megan Jones, Guto Morgan Jones wedi cwblhau cyfnod o 6 mis a Ffion Wynne ac Eluned Rhiannon Jones yn parhau.

# Pwyllgorau Ardal

Sefydlwyd 1 Pwyllgor Ardal Newydd

Sefydlwyd Pwyllgor Penmachno, sef "Clwb y Llan", sydd wedi cychwyn ar gais Arian i Bawb gyda chymorth ein Swyddog Ardal Wledig.

## Ardal yr Arfordir


- 1) Penmaenmawr a Llanfairfechan, sef pwyllgor Pen-llan
- 2) Llandudno a'r Cylch, sef pwyllgor Y Creuddyn
- 3) Abergele

## Yr Ardal Wledig

- 4) Pwyllgor y Berfeddwlad, sef yr ardal Rhwng Dyffryn Conwy a Chlwyd.
- 5) Dolwyddelan (anffurfiol)
- 6) Llanrwst (ymgyrch Llanrwst)
- 7) Cerrigydrudion (Uwchaled)
- 8) Penmachno

Cafodd Cynllun Gweithredu Ardal Llanrwst ei fabwysiadu gan Swyddog Treftadaeth yr Ardal Wledig y llynedd ac mae'n parhau yn rhan o rwydwaith pwyllgorau Ardal Menter Iaith Conwy.

# Strwythur Rheoli a Staffio Menter Iaith Conwy (MIConwy)



## Cyllid 10 – 11

£83,000 Bwrdd yr Iaith Gymraeg

£73,000 Cynllun Datblygu Gwledig (manylion isod)

£60,000 Trosiant Cyfieithu Cymunedol Conwy

£27,000 CAE (Parc Eryri) – Swyddog Ardal Wledig

£22,000 Cronfa Ddatblygu Mentrau Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Cynllun yr Hen Ysgol

£5,000 Arian i Bawb, Creuddyn.

£5,000 Cytundeb Lefel Gwasanaeth Adran Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

£4,000 Cytundeb Lefel Gwasanaeth Adran Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

£6500 Cytundeb Lefel Gwasanaeth, Yr Urdd.

£6000 Adran Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy - cynllun arferion iaith ar gyfer ysgolion nad ydynt yn cynnal canran siaradwyr Cymraeg y Sir. Defnyddiwyd yr arian i gynhyrchu sioe gerdd.

£9,496 Causeway Cyngor Prydeinig

£800 Ymddiriedolaeth Crafnant, Llanast Llanrwst

£8,140 Cyngor Conwy, Grant Offer

£3,000 Cymorth

£15,000 Cronfa Treftadaeth y Loteri

Cyfanswm bras o £322,936. Golygai hyn na ond 25% o'n cyllid sydd yn dod o BYIG. Mae gweddill o'n cyllid (£239,936) yn dod o ffynhonnellau eraill. Serch hyn heb y buddsoddiad cychwynnol yma gan BYIG ni fuasai modd tynnu gweddill yr arian i lawr i ddatblygu cynlluniau sydd yn hyrwyddo'r Gymraeg ac adfywio cymunedau.

Ceir manylion llawn ein cyllideb yn y Cyfrifon Blynnyddol

Cronfeydd Cynllun Datblygu Gwledig

- 1) Gwersi Cymraeg i niferoedd isel. Ychydig iawn o ddysgwyr mewn ardaloedd gwledig sy'n mynychu gwersi Cymraeg ar ôl eu blwyddyn 1af gan nad oes digon o ddysgwyr i gynnal y cwrs. Bydd yr arian yn rhoi cyfle i grwpiau bach brwdfrydig dderbyn hyfforddiant dwys i ddod yn rhugl eu Cymraeg.
- 2) Hyfforddiant Awyr Agored. Mwy o arian i gynorthwyo siaradwyr Cymraeg i hyfforddi a chael gwaith yn y maes awyr agored. Ar hyn o bryd tua 5% o weithlu canolfannau awyr agored y Gogledd-orllewin sy'n siarad Cymraeg.
- 3) Cyfieithu Cymunedol Conwy. Arian i gryfhau gwasanaeth Cyfieithu Cymunedol Conwy. Bwriad y cynllun hwn yw cynorthwyo'r sector cymunedol a gwirfoddol i gynnig gwasanaeth dwyieithog.
- 4) Cynllun Gwreiddiau Conwy – Cynllun i ddatblygu rhaglen o gynlluniau diwylliannol a threftadaeth yn y Sir.
- 5) Cynllun yr Hen Ysgol, Llanrwst. Arian i gyflogi swyddog i ddatblygu adeilad yr Hen Ysgol yn Llanrwst er budd y gymuned a'r Gymraeg.

# Cynlluniau Gwireddu Strategaeth

Rhannwyd yr adroddiad yn ôl amcanion Cynllun Strategaethol 09-12

***Blaenoriaeth – Meysydd y bydd y Fenter yn arwain ynddynt***

- ***Cymhathu / Dysgwyr / Mewnfudwyr***
- ***Ieuenctid / Allfudo / Cyflogaeth***
- ***Defnydd Cymunedol, Plant a Theuluoedd, Trosglwyddo Iaith***

***Eilradd - Meysydd y bydd y Fenter yn cydweithio ynddynt â phartneriaid amlwg.***

- ***Addysg***

- **Busnes**
- **Gwirfoddol**

Trafodwn y meysydd hyn yn fanylach isod:

### ***Blaenoriaeth – Meysydd y bydd y Fenter yn arwain ynddynt***

- ***Cymhathu / Dysgwyr / Mewnfudwyr***

Aeth 70 o ddysgwyr i Nant Gwrtheyrn trwy ein cynllun. Cynhaliwyd 2 gwrs i niferoedd isel, un yn Nolwyddelan a'r llall yn Llanfairtalhaiarn

Rydym ni'n dal i gydweithio â Chymraeg i Oedolion i hyrwyddo Sesiynau Siarad y Sir.

- ***leuenctid / Allfudo / Cyflogaeth***

- Cynhaliwyd gweithgareddau cyson er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith pobl ifanc. Nifer o ddigwyddiadau, nifer wedi mynychu. Ceir manylion llawn yn ein hadroddiadau Chwarterol.
- Hyfforddwyd 40 o Gymry Cymraeg i weithio yn y maes Awyr Agored. Mae gennym ni dystiolaeth fod 15 wedi derbyn swyddi yn y diwydiant yn dilyn hyn.
- Daethpwyd i gytundeb â'r Urdd i ddechrau Consortiwm o ddarparwyr Awyr Agored. Cynhyrchwyd a dosbarthwyd taflen marchnata. Erbyn hyn rydym ni'n dechrau cynnig gwaith i nifer sydd wedi derbyn hyfforddiant;
- Cynigwyd profiad gwaith â chyflog drwy gynllun "Swyddi'r Dyfodol" i bobl ifanc lleol ar leoliad 6 mis.

George Amor (Swyddog Cynorthwyol)

Llŷr Fôn (Swyddog Awyr Agored dan Hyfforddiant)

Guto Morgan Jones (cyfieithu cymunedol)

Eluned Rhiannon Jones (cyfieithu cymunedol)

Rydym ni wedi cynnig gwaith parhaol i Eluned a mwy o waith dros dro a llawrydd i George Amor. Dywedodd George:

*"Fel rhywun sy'n dod o deulu di Gymraeg, mae gweithio i Fenter Iaith Conwy wedi bod yn brofiad pwysig iawn i mi.*

*Trwy weithio yma, rydw i wedi datblygu'r hyder i ddefnyddio Cymraeg wrth fy ngwaith bob dydd, yn ogystal â theimlo fod angen mwy o bwyslais ar y defnydd o'r iaith yn ein hardal ni.*

*Nid yn unig fy mod i'n fwy hyderus a pharod i siarad yn Gymraeg, ond rydw i hefyd yn teimlo fel petai'r iaith wedi newid fy agwedd tuag at Gymreictod yn gyfan gwbl.*

*Yn ystod fy swydd rydw i wedi datblygu sgiliau newydd, cyfarfod pobl a manteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith trwy'r dydd, bob dydd. Oherwydd hynny, mae fy Nghymraeg wedi gwella'n arw, ac mae hynny'n deyrnged fawr i'r Fenter, a'u gwaith arbennig yn yr ardal.*

*Hefyd, mae defnyddio'r iaith yn gyson wedi dylanwadu ar fy ngwaith cerddorol tu allan i'r Fenter. "*

- **Cynllun Pedwar Cornel**

Bu 10 o ddisgyblion Ysgol Dyffryn Conwy yn cymryd rhan mewn prosiect cyfnewid hefo criw o bobl ifanc Abertawe, Cork a Belfast. Mae'n gyfle gwych iddyn nhw ddod i ddatblygu eu hunaniaeth a dysgu am eu treftadaeth a diwylliant ynghyd a threftadaeth, diwylliant a iaith pobl ifanc o ardaloedd eraill.

- **Patagonia Hydref 2011**



Dechreuwyd ar y gwaith o baratoi taith ieuencid i Batagonia yn 2011 gyda'r Urdd a Menter Patagonia. Bydd 1 aelod o'n staff, sef Esyllt Tudur yn mynd fel arweinydd. Bydd Manon Celyn yn mynd fel gwirfoddolwraig. Bydd 3 disgybl o Ysgol Dyffryn Conwy yn mynd. Mae gweddill y criw, 2 arweinydd a 19 o bobl ifanc yn dod o weddill Siroedd y Gogledd.

- **Defnydd Cymunedol, Plant a Theuluoedd, Trosglwyddo iaith**

Trwy ein pwyllgorau ardal rydym ni wedi cynnal cyfres o ddiwyddiadau er mwyn cynyddu defnydd cymunedol o'r Gymraeg.

- Cynorthwyo Bwrdd yr Iaith Gymraeg i dreialu'r offeryn "Cymdogaethau Cymraeg Ffyniannus" yn ardal Uwch Aled.
- Llanast Llanrwst.
- Mae dy Gymraeg di'n grêt, Penmaenmawr, Abergele.  
Tystiolaeth o holiaduron o sesiynau "Mae dy Gymraeg di'n Grêt" ardal y Glannau. Ateb i'r cwestiwn: Fuodd y sesiynau yn help i ti ymarfer dy Gymraeg ?

*"Good for picking up conversational Welsh"*

*"Oedd, efo pobl dwi ddim yn siarad Cymraeg hefo fel arfer"*

*"Although I can't speak Welsh very well, I found I could pick up certain things by listening."*

*"Very helpful- I could understand conversations, but need to gain more confidence to be able to siarad Cymraeg"*

*"A fi, dwi jyst ddim yn cael hyder i siarad, felly mae'n help mawr."*

- Mam a'i Phram, Llanrwst, Abergele a Llanfairfechan.
- Diwyddiadau yn Ysgolion Uwchradd, Creuddyn, Dyffryn Conwy, Ysgol Eirias (ffrwd ail-iaith), John Bright
- Ysgolion Cynradd, Pen Cae, Capelulo, Pant y Rhedyn, Babanod Llanfairfechan, Llanrwst, Abergele - Chwaraeon Buarth,



- Sioe Gerdd Ysgolion Colliant, cynllun ymarferion iaith - Llanrwst, Trefriw, Dolgarrog, Dolwyddelan, Penmachno, Betws y coed, Pen Cae, Pant y Rhedyn, Capelulo.

Eira Wyn, Pennaeth Cymraeg Dyffryn Conwy

*"Nes i fwynhau'r sioe ac oni'n andros o impresed efo plant Trefriw, dwi wedi penderfynu rhoi 3 yn y ffrwd Cymraeg yn Ysgol Dyffryn Conwy blwyddyn nesaf"*

Pennaeth Ysgol Capelulo

*"Maent yn barod i ddefnyddio'r iaith gydag oedolion a chyda'i gilydd -mae wedi gwneud daioni mawr i'w hyder i ddefnyddio'r iaith"*

Disgybl o Gapelulo.

*"I really enjoyed the whole show because it's given me more confidence to speak Welsh"*



(I'r Copa)

- Cynhyrchu DVD “Cymru Lloegr a Llanrwst” gydag ysgolion Cerrigydrudion a Rhydgaled
- Clwb Eirafyrddio Wythnosol a thaith i'r Alpau ym mis Mawrth, a'r Alban ym mis Chwefror



- Taith Eirafyrddio MIconwy

*“Byddai Aron yn hoffi dweud fod ei Gymraeg wedi gwella yn aruthrol diolch i'r gwyliau. Diolch i bawb am gymryd amser a bod yn amyneddgar wrth siarad Cymraeg efo fo” Aron a Catrin*

*“Dw i'n teimlo bod y profiad hwn wedi gwella fy hyder wrth siarad Cymraeg yn fawr iawn, ac wedi rhoi gwell dealltwriaeth o bwysigrwydd ddefnyddio'r iaith cymaint â phosib” Matt Garnet.*



- Clwb Syrffio Wythnosol (yn yr Haf)



- Clybiau leuenctid ac aelwydydd, Abergele, Llanrwst, Ysbyty Ifan.
- Cydweithio â TWF a Mudiad Ysgol Meithrin, Taith Dewin, Sefydlu cylch “Ti a Fi” Penmaenmawr.
- Dechrau mynychu “grŵp diddordeb iaith” sydd yn rhan o ddatblygu’r strategaeth gymunedol y Cyngor Sir.
- Paratoi ymateb i Gynllun Datblygu Lleol y cyngor yn nodi pryder am o’r ddatblygu tai yn ardal Llanrwst ac Abergele. Ond yn llongyfarch y cyngor am geisio datblygu offeryn asesu trawiad iaith.
- Paratoi ymateb i ymgynghoriad TAN 20.

### ***Blaenoriaethau Eilradd –***

#### ***Meysydd y bydd y Fenter yn cydweithio ynddynt â phartneriaid amlwg.***

- ***Addysg***

Rydym yn gweithio yn agos iawn ag Adran Addysg y Cyngor Sir erbyn hyn fel y gallwch weld o’r adroddiad.


- ***Busnes***

Rydym ni wedi trosglwyddo’n dyletswyddau Sector Preifat i Adran Sector Preifat Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Serch hyn rydym ni’n parhau i gynnig cyngor a mân gyfieithu i fusnesau, neu yn eu cyfeirio nhw at BYIG, y Llinell gyswllt a Chyfieithu Cymunedol yn dibynnu ar natur eu hymholiad.

- ***Gwirfoddol***

Mae ein his-gwmni , Cyfieithu Cymunedol Conwy, yn gweithredu cytundeb lefel gwasanaeth gyda chynghor gwasanaethau Gwirfoddol Conwy (CGGC). Maent hefyd yn darparu gwasanaeth rhatach i’r sector gwirfoddol. Bu’r Fenter yn llythyr Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy er mwyn ailystyried gwneud y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer swydd y Prif Weithredwr. Penodwyd siaradwr Cymraeg.

Cynhaliodd Cyfieithu Cymunedol gwrs gloywi iaith i CGGC.



(aelodau o Cyfieithu Cymunedol)

## Cynlluniau Penodol

### Cyfieithu Cymunedol Conwy

Bu'n flwyddyn lwyddiannus arall i'r cynllun yma gyda chynnydd yn nifer y staff a'r gwaith. Rydym ni wedi bod yn gweithio yn gynyddol gyda Mentrau Iaith eraill a Chynghorau Gwirfoddol i ehangu'r gwasanaeth. Mae'r cynllun erbyn hyn yn cyflogi 4. Cynigwyd 2 leoliad "hyfforddiant mewn swydd" 6 mis. Roedd modd cynnig parhad i un o'r swyddi yma. Yn ogystal â hynny, enillwyd tendr i gyflawni holl anghenion cyfieithu ar y pryd Eisteddfod yr Urdd Abertawe 2011 a thendr arall i ymgymryd â gwaith prawfddarllen i Fwrdd yr Iaith.



(mae cyfieithu ar y pryd i'r cymuned yn galleogu cyfarfodydd i parhau yn y Gymraeg)

### Yr Hen Ysgol, Llanrwst

Fel sydd eisoes wedi ei grybwyll, cafwyd cryn rwystr cydweithio gyda phrif bartner y cynllun yma sef Pennaf, ac o'r herwydd, nid yw wedi ei ddatblygu yn ôl y disgwyl. O ganlyniad mae Cwmni'r Hen Ysgol wedi penderfynu edrych ar safle gwahanol i'w ddatblygu. Maent wedi dewis adeilad "Yr Hen Orsaf". Mae pensaer annibynnol wedi ei gomisiynu i gwblhau'r gwaith a bydd ymgynghoriad ar sut y gallwn ni addasu'n cynlluniau i'r adeilad.



### **Asiantaeth Hyfforddi a Chyflogi Sgiliau Awyr Agored**

Bu newid yn strwythur MIconwy er mwyn blaenoriaethu'r gwaith yma yn sgil cais llwyddiannus i CAE i gyflogi swyddog i ddatblygu'r cynllun. Mae Bedwyr ap Gwyn bellach yn Swyddog Asiantaeth Awyr Agored.

Yn ystod y flwyddyn cymerodd dros 50 o siaradwyr Cymraeg ran mewn cyrsiau cymwysterau awyr agored. Cafwyd tystiolaeth fod 5 wedi derbyn swyddi yn yr ardal oherwydd eu cymwysterau a 30 arall wedi codi lefel eu cymhwysedd yn eu swyddi cyfredol.

Tu hwnt i hyfforddi mae'r cynllun wedi creu marchnad waith i ddarparwyr cyfrwng Cymraeg trwy farchnata i ysgolion. Ein gobaith yn y tymor hir yw creu incwm i gynnal y cynllun.

*“mae'r hyfforddiant syrffio trwy menter iaith wedi fy ngalluogi i wneud llawer o waith llawrydd trwy'r Gymraeg a'r Saesneg i wahanol gwmnïoedd” Guto Roberts BSA, SLSA*

*“rwyf wedi llwyddo i gynnig gwasanaeth llawer mwy cyflawn trwy gyfrwng y Gymraeg yn fy swydd yn yr Urdd, diolch i'r hyfforddiant trwy Menter iaith.” Arwel Elias MIA*



*(Hyfforddi yn Eryri.)*

## 9) Mentrau Iaith Cymru

Mae Prif Swyddog MIC hefyd yn Gadeirydd pwyllgor staff Mentrau Iaith Cymru ac wedi cynorthwyo i ddatblygu'r cynlluniau canlynol;

**Menter Patagonia.** Llwyddwyd i ddenu arian a sefydlu Menter Iaith ym Mhatagonia. Erbyn hyn mae 2 swyddog yn gweithio ar y cynllun yn Y Wladfa.

**Brwydr y Bandiau C2 a Mentrau Iaith Cymru.**

**Bu C2 yn cynnal gweithdai yn Ysgol Dyffryn Conwy ac Ysgol Y Creuddyn yn ystod y cyfnod yma**

**Cyfarfod â'r Gweinidog Iaith a Diwylliant.** Bu'r Prif Swyddog a Swyddog Mentrau Iaith Conwy yn cyfarfod â'r gweinidog i lobïo ynglŷn â'r mesur iaith newydd, y strategaeth iaith ac am adnoddau i'r Mentrau Iaith.

# I Gloi

Er na fu naid mor fawr yng nghymhwysedd MIConwy o'i gymharu â llynedd, teimlwn i'r flwyddyn fod yn gyfnod o addasu i'r cymhwysedd yna. Digwyddodd hyn drwy sicrhau gweithrediad ein rhaglenni gwaith, gweinyddiaeth y staff a chyllid a ddaeth a naid mewn cymhwysedd. Nodwyd hyn yn adroddiad llynedd;

*“Mae hyn wedi peri i’r Fenter weld bod angen systemau cyllidol effeithiol, a bod angen cynllunio systemau o’r fath i fod yn rhan o unrhyw gais am adnoddau ychwanegol.*

*Mae maint y Fenter bellach yn gofyn proffesiynoli amodau staff a materion iechyd a diogelwch. Bydd hyn yn flaenoriaeth tymor byr.”*

Braf yw datgan fod nifer y pwyllgorau ardal yn cynyddu a bod pob un wedi cyfrannu at gynnal digwyddiadau gyda blas lleol iddynt. Mae’n rhaid cydnabod na fyddai hyn yn bosib heb ymrwymiad a brwdfrydedd y ddau swyddog maes cymharol newydd sydd wedi mynd ati fel lladd nadroedd yn eu hardaloedd.

Yn hyn oll, mae Menter Iaith Conwy yn ffodus iawn. Gwelir yr ymrwymiad a’r brwdfrydedd yma hefyd ymhlith ein holl staff. Yn wir fe geir tystiolaeth bendant o hyn yn y ffordd mae ein cynlluniau penodol fel Cyfieithu Cymunedol a’r Asiantaeth Awyr Agored wedi datblygu i fod yn egin “Mentrau Cymdeithasol” sy’n cynnal gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ac yn creu gwaith ac incwm.

Hawdd yw nodi a chanmol llwyddiant, ond mae’n rhaid gweld lle nad ydym ni wedi bod mor llwyddiannus fel gyda chynllun yr Hen Ysgol. Eto mae’n rhaid edmygu dygnwch ein staff i ddyfalbarhau â’r weledigaeth a chanfod ffyrdd eraill o symud ymlaen.

Rydym ni hefyd yn ffodus bod nifer o’r gwirfoddolwyr sydd ar ein hamrywiol bwyllgorau hefyd yn rhannu’r un brwdfrydedd ac ymrwymiad i sicrhau dyfodol i’r Gymraeg yn eu hardal neu faes.

Nid datblygiad dros nos mo hyn i gyd, ond yn hytrach ffrwyth blynyddoedd o waith i fagu cymhwysedd, profiad a gweledigaeth.

Meirion LI Davies

Cyfarwyddwr Datblygu MIC

20/8/11